Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

11 Gorffennaf 2023

Annwyl Rebecca,

CYFRINACHOL: Taliad anghyfunol untro o £1500 i staff Llywodraeth Cymru

Deallaf fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi taliad untro o £1500 i'w staff ym mis Gorffennaf i liniaru effaith costau byw uchel parhaus.

Fel rhan o'n rôl o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae'r Pwyllgor yn ceisio eglurder ynghylch cyfanswm gwerth y taliad hwn i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwybodaeth ynghylch sut y caiff ei ariannu. Byddem yn ddiolchgar felly o gael ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn:

1. A allwch chi egluro cyfanswm gwerth y taliad hwn ac egluro sut y caiff ei ariannu, gan gynnwys a ddaw unrhyw gyllid canlyniadol cysylltiedig gan Lywodraeth y DU, neu drwy ffyrdd eraill?

2. Pan ymddangosoch chi gerbron y Pwyllgor ar 21 Mehefin 2023 i roi tystiolaeth ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24, dywedoch chi: "we haven't made changes to our spending plans… because we are still quite early on in the financial year", a hefyd "colleagues across the different MEGs will be looking to manage their spend within the envelope that they have".

   A yw eich sefyllfa ariannu wedi newid ers gosod Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 er mwyn rhoi'r taliad hwn i staff, ac a fydd angen trosglwyddiadau rhwng y Prif Grwpiau Gwariant i dalu'r gost hon?

3. A fydd y trefniadau ariannu ar gyfer y taliad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Ail Gyllideb Atodol, sydd ar y gweill yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, neu a ydych chi wedi ystyried cyflwyno cyllideb atodol ychwanegol ar gyfer y taliad hwn?

4. A ydych chi’n disgwyl i’r taliad hwn fod yn gymwys i staff sy’n gweithio yng nghyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru heblaw Llywodraeth Cymru? Os felly, sut ydych chi’n rhagweld y caiff hynny ei ariannu? Gan fod gan y Pwyllgor rôl o ran goruchwylio’r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, byddai gennym ddiddordeb arbennig mewn gweld a yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i’r cyrff hynny adlewyrchu’r trefniadau hyn.

Gan ein bod yn deall bod disgwyl i’r taliad hwn gael ei wneud i staff Llywodraeth Cymru yn fuan, byddem yn gwerthfawrogi pe gallwch ymateb i’r cwestiynau hyn fel mater o frys.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.